Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Cynllunio Creu Coetir

Plan Creu Coetir

Llawlyfr Sut i Lenwi

Llawlyfr Sut i Lenwi

Mae'n bwysig eich bod yn darllen llyfryn y Cynllun Cynllunio Creu Coetir (WCPS) i ddeall gofynion y cynllun.

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi cymorth cam wrth gam wrth ichi fynd ati i lenwi'ch Plan Creu Coetir WCPS.

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi'r Llawlyfr hwn yn Gymraeg ac yn Saesneg fel y mae gofyn iddi wneud dan Gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Os hoffech gael copi o'r Llawlyfr hwn yn Saesneg, ewch i Cynllun Cynllunio Creu Coetir | llyw.cymru, cliciwch ar y botwm dewis iaith ar frig y dudalen ac ail agorwch y ddogfen.

Os cewch chi unrhyw broblemau neu os na fyddwch yn gallu mynd i'n gwefan, dylech gysylltu â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

©Hawlfraint y Goron 2022 ISBN 978-1-80364-153-9

Cynnwys

Cyflwyniad – Plan Creu Coetir – Sut i Lenwi 4
Y Plan Creu Coetir 4
Y Shapefile 4
Dilysu'r Plan yn Llwyddiannus 4
Adran 1 5
Manylion yr Eiddo, yr Ymgeisydd a'r Cynlluniwr/Asiant 5
Manylion y Safle Plannu 5
Gwybodaeth am yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) (Coedwigaeth) 5
Adran 2 5
Gweledigaeth ac Amcanion Tymor Hir 5
Adran 3 6
Effeithiau posibl y gwaith plannu 6
Adran 4 7
Dyluniad y gwaith plannu newydd 7
Adran 5 8
Cynnal a monitro'r safle plannu 8
Adran 6 9
Ymgynghoriad 9
Cyfranogiad y cyhoedd 9
Arolygon Arbenigol sydd wedi'u Cynnal 9
Adran 7 10
Cynllun Gweithredu 10
Adran 8 11
Gwybodaeth sydd ei hangen i gadarnhau'r Plan 11
Datganiad Cynlluniwr y Coetir 11
Datganiad yr Ymgeisydd / Asiant 11
Cyn Cyflwyno 11

Cyflwyniad – Plan Creu Coetir – Sut i Lenwi

Y Plan Creu Coetir

Darllenwch y canllaw hwn wrth baratoi'ch Plan Creu Coetir. Rhaid llenwi pob rhan o'r Plan cyn y gall Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ei ddilysu.

Dylai cynllunwyr gynnwys pob cynnig plannu sydd ganddynt ar gyfer y pum mlynedd er mwyn iddyn nhw allu gwneud cais am arian creu coetir wrth i gyfnodau ymgeisio agor yn y dyfodol.

Y Shapefile

Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y Map Cyfleoedd Coetir, yn rheolau'r cynllun ac ar ôl cynnal arolwg o'r safle, bydd angen i'r Cynlluniwr farcio Shapefile yr ymgeisydd fel ei bod yn cyd-fynd â'r Plan.

Rhag cael y Shapefile yn ôl i'w chywiro, mae'n bwysig bod y Cynlluniwr yn dilyn canllawiau'r Shapefile yn ofalus. Mae'r canllaw i lunio'r Shapefile ar gael yma. Rhoddir rhestr i'r Cynllunwyr er mwyn gwneud yn siŵr bod y Shapefile yn cael ei llenwi a'i chyflwyno'n gywir.

Dilysu'r Plan yn Llwyddiannus

Byddwn yn rhoi gwybod pan fydd y Plan wedi'i ddilysu'n llwyddiannus. Caiff perchennog y Plan wedyn wneud cais am arian Llywodraeth Cymru am gyfnod o bum mlynedd o ddyddiad ei ddilysu.

Mae'r canllaw sy'n dilyn yn ymwneud â Phlan Creu Coetir y WCPS, sydd ar gael yn llyw.cymru/cynllun-creu-coetir-sut-i-lenwi.

Adran 1

Manylion yr Eiddo, yr Ymgeisydd a'r Cynlluniwr/Asiant

Rhowch fanylion yr eiddo lle rydych yn plannu'r coetir, enw'r ymgeisydd a manylion cyswllt a statws y cwsmer yn y rhan hon. Ychwanegwch hefyd fanylion y Cynlluniwr Coetiroedd Cofrestredig, ac os yn briodol, manylion yr Asiant.

Manylion y Safle Plannu

Rhowch fanylion yr ymweliad â'r safle, arwynebedd y safle plannu, categori'r coetir a manylion y lleoliad.

Gwybodaeth am yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) (Coedwigaeth)

Nodwch arwynebedd pob un o'r Ardaloedd Dynodedig. Trowch at y Map Cyfleoedd Coetir i gael help gyda'ch EIA.

Adran 2

Gweledigaeth ac Amcanion Tymor Hir

Sgrifennwch 1-2 frawddeg sy'n disgrifio'ch gweledigaeth tymor hir ar gyfer y safle plannu newydd.

Nodwch amcanion y gwaith plannu arfaethedig, a all gynnwys manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae enghreifftiau o amcanion yn cynnwys:-

- Gwella'r cysgod i'r stoc ar y fferm.
- Sefydlu coetir fydd yn cynhyrchu pren da.
- Cynhyrchu cyflenwad cyson o goed tân i fwyler bioamas y fferm.
- Creu cynefin i anifeiliaid a phlanhigion gwyllt.
- Mygu sŵn rheilffordd neu ffordd gyfagos.

Adran 3

Effeithiau posibl y gwaith plannu

Ewch i'r Map Cyfleoedd Coetir i weld yr haenau gwybodaeth e.e. SoDdGA, byfferi SoDdGA, mynediad agored, wiwerod coch.

Wrth ddisgrifio'r haen yn y cynnig plannu e.e. SoDdGA a byffer o 300m – nodwch enw'r SoDdGA, pam ei fod wedi'i dynodi, pa mor agos yw'r gwaith plannu newydd i'r SoDdGA. Edrychwch ar y canllawiau i gael gwybodaeth am haenau.

Edrychwch yn y Map Cyfleoedd Coetir i ddarllen y canllaw rhywogaethau ar gyfer unrhyw gynefin â blaenoriaeth yn yr ardal rydych am ei phlannu.

Adran 4

Dyluniad y gwaith plannu newydd

Ystyriwch y canlynol wrth ateb y cwestiynau canlynol:

Disgrifiad byr o'r safle plannu newydd	Rhowch fanylion y safle plannu newydd gan gynnwys natur y safle e.e. tir pori, ei leoliad o fewn y dirwedd, uchder uwchlaw'r môr, y pridd, cynefinoedd gerllaw.
Paratoi'r ddaear cyn plannu	Pa waith paratoi sydd ei angen ar y tir cyn plannu'r coed e.e. rheoli rhedyn a phryd caiff y gwaith ei wneud.
Math o goed a blennir a maint y coed/llwyni	Disgrifiwch y stoc plannu e.e. gwreiddiau moel, wedi'u tyfu mewn celloedd a maint y coed a'r llwyni.
Amddiffyn y coed – pa fath o lewys/cysgodfeydd ydych chi am eu defnyddio a pham?	Disgrifiwch y math o gysgodfeydd / llewys coed rydych am eu defnyddio a pham.
Amddiffyn rhag ceirw	Os oes gennych broblem â cheirw, nodwch y mesurau rydych yn eu cymryd (e.e. amddiffyniad ychwanegol, ffensys) i amddiffyn y coed newydd rhag ceirw.
Tir agored	Nid yw ardaloedd o 0.5ha neu fwy yn gymwys i gael cyllid ac mae angen eu mapio.
A oes coed yn sefyll ar y safle yn barod?	Gellir cynnwys coed a llwyni gwasgaredig yn y plan ac os yw'r ardal dros 0.5ha, mae angen ei mapio yn yr un modd â thir agored.
Amserlen y plannu newydd	Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl am amserlen y plannu newydd.

Adran 5

Cynnal a monitro'r safle plannu

Ystyriwch y canlynol wrth ateb cwestiynau'r adran hon:

Torri'r tyfiant o gwmpas y coed	Disgrifiwch yn fras (1-2 frawddeg) sut y byddwch yn rheoli llystyfiant e.e. rhedyn, mieri, porfa e.e. chwynladdwr gan ddefnyddio contractwr trwyddedig, matiau mwltsh.
Plannu coed newydd yn lle coed sy'n methu	Esboniwch y drefn ar gyfer chwilio am goed marw a phryd y caiff coed newydd eu plannu yn eu lle. Bydd gofyn plannu'r un math o goed â'r rheini sy'n methu.
Ffensio	Esboniwch yn fras y drefn ar gyfer archwilio'r ffens o gwmpas safle'r coed newydd. Bydd gofyn gwneud o leiaf unwaith bob blwyddyn.
Amddiffyn y coed	Disgrifiwch yn fras sut a phryd y caiff y cysgodfeydd coed ar safle'r coed newydd eu harchwilio. Bydd gofyn gwneud o leiaf unwaith bob blwyddyn.
Tynnu'r llewys coed ac ati	Disgrifiwch yn fras sut y byddwch yn tynnu'r cysgodfeydd ar safle'r coed newydd pan fydd y coed a'r llwyni wedi cydio ac felly'n ddiogel rhag cwningoed a llygod.
Llwybrau drwy'r coed	Esboniwch sut y caiff llwybrau ar y safle eu cynnal e.e. lladd gwair â thractor.

Adran 6

Ymgynghoriad

Yn unol â rheolau'r Cynllun a'r UKFS, rhaid i'r adran hon gynnwys adroddiad byr am yr ymgynghoriad cyhoeddus sydd wedi'i gynnal fel rhan o'r plan creu coetir. Bydd hyn yn cynnwys cymdogion, y gymuned leol, cyngor plwyf ac unrhyw rai eraill a fydd â diddordeb. Bydd angen i'r math o ymgynghoriad a gynhelir fod yn gymesur â'r achos. Ar gyfer cynlluniau mwy, bydd angen ymgynghoriad mwy trylwyr. Fel rhan o unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus neu gymdogol, mae angen i'r cynlluniwr nodi pryd wnaeth yr ymgeisydd ymgynghori gyda'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid, sut yr ymgynghorwyd â nhw (h.y. digwyddiad cyhoeddus, taflenni, wyneb yn wyneb), am ba hyd wnaeth yr ymgynghoriad bara a phwy wnaeth ymateb.

Mae mynd ati'n rhagweithiol i ymgynghori yn medru helpu pobl i ddeall gweledigaeth y gwaith plannu newydd. Mi fedr hyn arwain at lefelau uwch o ddiddordeb a chefnogaeth weithredol i'r coetir pan mae'r cyfle yn codi, e.e. gwirfoddoli ar gyfer dyddiau agored. Mi all ymgynghori gyda'r gymuned hefyd leihau'r tebygrwydd y bydd yn ymateb yn negyddol i'ch cynlluniau a gweithredoedd oherwydd gwallau cyfathrebu neu ddealltwriaeth wael o greu coetir.

Efallai y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am ragor o wybodaeth yn ystod y broses ddilysu, felly mae'n bwysig i chi gadw cofnod o unrhyw sgyrsiau yr ydych yn eu cael gyda rhanddeiliaid, manylion o'r hysbysiadau yr ydych yn eu cyhoeddi a'r ymatebion yr ydych yn eu derbyn.

Cyfranogiad y cyhoedd

Sicrhewch fod yr holl dystiolaeth a gesglir ynghlwm wrth y plan. Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r holl ddata a ddarperir am gyfnod penodol o flynyddoedd yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch ar y ddolen hon: Hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru

Arolygon Arbenigol sydd wedi'u Cynnal

Rhowch fanylion llawn unrhyw arolygon sydd wedi'u cynnal gan gynnwys eu dyddiadau, cyflenwyr a dyfynbrisiau.

Adran 7

Cynllun Gweithredu

Cyfeirnod y Ddalen	Rhif cofrestru tir Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfeirnod y ddalen yn ddwy lythyren a pedwar rhif ee SH1234; mae rhif y cae yn bedwar rhif
Rhif Adnabod Unigryw	Defnyddiwch y rhif hwn i gysylltu pob eitem plannu / ffensio neu gât unigryw yn y Shapefile â'r eitem gysylltiedig sydd wedi'i rhestru ar y Plan. Pwysig: rhaid rhoi rhif unigryw i bob eitem plannu / ffensio neu gât. Rhaid bod gan bob rhif integer e.e. 1, 2, 3, 4, 5. Peidiwch ag ychwanegu llythrennau neu rifau adrannol at y Rhif Unigryw. Os gwelir eich bod wedi defnyddio'r un rhif fwy nag unwaith, gofynnir i chi ei gywiro.
Categori'r Coetir neu Ffensio	Gweler y llyfryn rheolau ar gyfer Categori'r Coetir
Nifer yn y cynnig (Ha / m)	Arwynebedd y gwaith plannu/hyd y ffensio newydd

Adran 8

Gwybodaeth sydd ei hangen i gadarnhau'r Plan

Llenwch yr adran hon i ddangos pa ddogfennau eraill, cydsyniadau ac ymatebion i ymgynghoriad rydych yn eu cyflwyno i gadarnhau'r Plan.

Datganiad Cynlluniwr y Coetir

Y Cynlluniwr Coetiroedd Cofrestredig sy'n gyfrifol am lunio'r Plan ddylai llenwi'r adran hon.

Datganiad yr Ymgeisydd / Asiant

Yr Ymgeisydd neu Asiant yr Ymgeisydd ddylai llenwi'r adran hon.

Cyn Cyflwyno

Llenwch yr adran hon yn ei chyfanrwydd.